# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 23.4.24

**Neuadd Cymuned Glantwymyn**

**19:649: Presennol**: Iwan Pughe Jones (Cadeirydd), Gareth Owen, Gwenfair Rhys-Davies, Elwyn Vaughan, Aled Griffiths, Dafydd Evans, William Owen Glyn Jones, Rhodri Wigley Sandra Evans (Clerc)

**19:650: Ymddiheuriadau**: Aeron Pughe, Paul Hughes, Huw Williams, Gareth Wyn Jones, Bedwyr Fychan

**19:651: Materion Personol** Mynegwyd cydymdeimlad dwys â Paul Hughes ar golli ei fam.

**19:652: Datganiadau o ddiddordeb**:

**19:653: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Ebrill 2024** Nodwyd bod Gareth Owen yn bresennol. Dau dwll sydd yn y ffordd yn Narowen gan fod cerbyd y Cyngor wedi parcio dros un pan ddaeth y gweithwyr i asesu'r sefyllfa.

Cynigwyd bod y cofnodion yn iawn fel arall gan Glyn Jones ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Rhys-Davies.

**19:654: Materion yn codi o'r cofnodion.**

.**19:655: Adroddiad y Clerc -**

**19:657: Cynllunio**: (http://pa.powys.gov.uk/online-applications/).

24/0441/REM Cynnig: Section 73 application to vary condition 2 of planning permission 23/1481/FUL Industrial Building, Abertwymyn, Glantwymyn, Machynlleth SY20 8LX. Nodwyd bod hyn eisoes ar waith.

!9:658: **Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Cyflog y Clerc Mis 12 Mawrth 377.40
- Y Blewyn Glas £15.00 – hysbyseb torri gwair
- Derbyn taliad awdit 14/03/24 INVCE SEP23-AUG24 B000018635 223/24 266366 3685.00
- £238.20 HMRC
- Rhoddwyd siec newydd i Ganolfan Gymuned Glantwymyn yn lle siec 101413 am £110.00 gan fod newid heb ei lofnodi a'r siec yn cael ei wrthod.

**!9:659: Cyfrinachedd Cynghorwyr ar y wefan** – Yn dilyn ymholiadau gan y Clerc gydag Un llais Cymru deallwyd bod rhaid cadw dogfen datgan diddordeb Cynghorwyr ar y wefan a rhaid hefyd cael modd i'r cyhoedd gysylltu â Chynghorwyr unigol. Yn dilyn pryderon am ddatgelu gwybodaeth gan rai o'r Cynghorwyr, penderfynwyd nodi cyfeiriad e-bost y Cyngor ar gyfer pob Cynghorydd yn unigol er mwyn ceisio ateb gofynion cyfreithlon heb amharu ar gyfrinachedd unigolion.

**!9:660: Torri gwair mynwentydd Llanwrin a Darowen**. Penodwyd Paul Hughes i barhau gyda'r gwaith. Mynegwyd gwerthfawrogiad nad oedd y pris wedi codi ers y llynedd er bod costau'n cynyddu yn gyffredinol. Diolchwyd i Paul am ei waith cywrain a thaclus.

**!9:661: Cadarnhau trefniadau ar gyfer yr awdit mewnol**. Mae Gareth Wyn Jones yn cysylltu â Mrs.Eirlys Pugh eto.

**!9:662: Asesiad Risg a Rhestr Asedau** Derbyniwyd y rhain gan y Cyngor

**!9:663:. Gohebiaeth**

**!9:664:. Pennau dyddiad i fapio'r mynwentydd** – Bydd cynghorwyr lleol ac unrhyw gynghorydd arall syddd â diddordeb yn mynd i'r mynwentydd i ddiweddaru'r mapiau. Cysylltir cynghorwyr Llanwrin (Dafydd a William) â Gareth Owen a chysylltir Cynghorwyr Darowen (Iwan ac Aeron) â Rhodri Wigley i bennu dyddiad cyfleus tua 7.00 fin nos a bydd y ddau yn cysylltu 'âr Clerc o leiaf deuddydd ymlaen llaw roi gwybod i bawb. Bydd y Cynghorwyr yn tynnu lluniau ar gyfer cadw cofnod o'r awgrymiadau ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

**19:665: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**Elwyn Vaughan – Cynghorydd Sir**

- Toiledau Machynlleth- Mae 60 miliwn o bres cyfalaf ar gael ar gyfer unrhyw brosiect. Y mae Elwyn wedi tynnu sylw Clerc Cyngor Tref Machynlleth a'r Maer at hwn gan fawr obeithio y bydd modd iddynt fanteisio ar y cyfle i wella'r cyfleusterau hanfodol hyn. Cynhelir cyfarfod Cyngor y dref Nos Lun 27.4.24. Diolchwyd y Cynghorwyr i Elwyn am ei waith yn y cyswllt hwn gan bwysleisio mor bwysig yw'r cyfleustra hwn i'r dref yn enwedig yng ngolwg y niferoedd mawr sy'n ymweld adegau achlysuron arbennig megis yr ŵyl gomedi ac ati yn ogystal â phresylwyr lleol.

Ysgol Bro Hyddgen – Ni fydd CADW yn rhoi darn o'r hen ysgol ar ei restr a bydd y trefniadau gwreiddiol yn mynd yn eu blaen yn ddi-rwystr. Mae pryderon gan rai y bydd y maes chwarae'n faint tri chwarter yn unig gan fod diffyg lle achos y ffordd. Fel arall mae popeth yn barod i fynd a gobeithio pennu contractwyr cyn hir.

Ambiwlans Awyr Cymru - Siomedig yw'r penderfyniad i ganoli adnoddau. Nid yw natur cefn gwlad - llethrau, gwir bellter llefydd o'i gilydd ac ati wedi cael ei ddwyn i ystyriaeth yn y penderfyniad gan hefyd gymylu'r ystadegau. Bydd Elwyn Vaughan a Stephen Harri'n dwyn her gyfreithiol ynghylch y mater. Cynhelir deiseb ar-lein a chyfarfod yn yr Hydref i drafod cyllido'r drefn newydd. Bydd Elwyn yn gobeithio sicrhau cerbyd brys i ardal Machynlleth, gan dynnu sylw at yr ysbyty newydd yno a gobeithio sefydlu tîm canolog. Y bwriad yw ceisio cael cerbyd tebyg yn y Drenewydd hefyd.

Canoli gwasanaethau – Y bwriad yw canoli gwasanaeth i bedwar man ym Mhowys sef Aberhonddu, y Drenewydd, Llandrindod a'r Trallwng.

**Iwan Pugh Jones -Ecodyfi/Biosffêr Dyfi**

- Llygredd afonydd – Yn Llanbrynmair mae'r llygredd gwaethaf yng Nghymru. Ceir gwastraff ei ryddhau i'r afon 242 diwrnod o'r flwyddyn. Rhoddir pwysau ar Ddŵr Cymru.
- Mae cadmiwm yn llifo o Gwm Pennant i'r afon Dyfi. Nid yw Cwmlline a'r problemau carthffosiaeth yn cael eu nodi yn yr ystadegau.

**Rhodri Wigley - Ysgol Glantwymyn**

- Cafwyd cyfarfod i drafod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn gyffredinol roedd agwedd fwy positif. Gwneir arbedion drwy'r staff yn gwneud llai o oriau. Bydd pedwar dosbarth sy'n gweddu'r ystod oedran ymdeima

**19:666: Ffyrdd a Phontydd**

- Cornel Glanfechan - Twll lle bu railings sy'n berygl i'r cyhoedd
- Goleuadau ar yr A470 yn Nhalerddig. Mae'r culvert yn cael ei ddraenio a'r graig ochr uchaf y ffordd yn goetir treftadaeth felly mae oedi er mwyn gwarchod y coed ar hyn o bryd. Y bwriad oedd cyflawni'r gwaith cyn y Pasg.
- Twll yn y ffordd ger Cwm Perllan dan Berllan Deg
- Twll ychwanegol yn Narowen gan fod cerbyd wedi parcio ar ben un pan ddaeth y gweithwyr i edrych ar y sefyllfa.

- Twll yn y ffordd ger Mathafarn wrth droad Bryn Melin
- Tŷ llwyd – tarmac yn codi wrth ochr y ffordd yn berygl
- Cafwyd cais cyffredinol i agor ffosydd a glanhau culverts yn yr ardal i osgoi tyllau yn y ffyrdd.
- Arhosfan bysiau Llanwrin – bydd y Cynghorwyr William Owen, Glyn Jones a Dafydd Evans yn mynd i 'w olwg a nodi manylion er mwyn cynnig y gwaith i'w dendro.
- Nodwyd nad yw Cae'r Efail wedi cael ei sillafu'n gywir gan mai Caer Efail sydd ar yr arwydd gerllaw.